# Cyflwyniad i gymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr



# CYNNWYS


## Trosolwg o'r fframwaith 4

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 5

Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) 6

Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod? 8

## Strwythur y cymhwyster 10

Beth yw uned? 11

Mae rhai geiriau a datganiadau yn ymddangos mewn print trwm – pam hynny? 12

Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth am bob uned? 13

Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanynt? 14

Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn? 16

## Ymgysylltu â chyflogwyr 18

Sut allai fy nghyflogwr fod yn rhan o fy nysgu? 19

## Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster? 20

Cam 1 – Cyn cyflwyno 21

Pa unedau fyddaf yn eu cwblhau? 22

Beth yw credydau? 22

Grŵp gorfodol 23

Grŵp dewisol A 23

Grŵp dewisol B 23

Cam 2 – Cyfnod Dysgu 24

Parodrwydd ar gyfer asesu – arddangos cymhwysedd 25

Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol 26

Sut fydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu? 27

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud? 27

Pa dystiolaeth ychwanegol y gallwn i ei defnyddio? 28

Crynodeb o'r asesiad ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) 29

Beth yw log myfyriol? 30

Beth yw trafodaeth dan arweiniad? 32

Cam 4 - Cwblhau 34

Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth dan arweiniad? 34

Pa gymorth sydd ar gael i mi? 35

Beth allai'r cymhwyster hwn arwain ato? 37

Symud ymlaen at gyflogaeth 37

Symud ymlaen at Lefel 4 a 5 38

Symud ymlaen at ddysgu pellach 39

Symud ymlaen ar draws y sector ehangach 41

A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster? 42

Cyllid 42

Sut ydw i'n hoffi dysgu – beth yw fy 'hoff' ddull dysgu? 43

# Trosolwg o'r fframwaith

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer fawr o gymwysterau a oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC (**y Consortiwm**) i ddatblygu o leiaf 19 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant (gweler y darlun ar dudalen 5). Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y diben ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

Cewch ragor o wybodaeth am adolygiad Cymwysterau Cymru yma: https://cymwysteraucymru.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

P'un a ydych yn yr ysgol neu mewn coleg chweched dosbarth, yn gweithio neu'n astudio yn y coleg neu gyda darparwr yn y gweithle, bydd y gyfres newydd o gymwysterau yn diwallu eich anghenion. Maent ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, ac yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen p'un a ydych yn ystyried chwilio am swydd, datblygu eich gyrfa neu'n gobeithio mynd i'r coleg neu brifysgol.

# Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

Mae’r canllawiau hyn i fyfyrwyr yn canolbwyntio ar gymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**. Mae'n rhaid i chi fod o leiaf 16 oed i gwblhau'r cymhwyster hwn. Mae'r ffordd y mae'r cymhwyster yn cyd-fynd â'r gyfres newydd o gymwysterau wedi'i hamlygu yn y fframwaith isod. Er gwybodaeth, gall y teitlau ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 newid.

## Lefel 5

- City & Guilds — Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithsaol: Ymarfer — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer — **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 4

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Arbenigedd — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Paratoi i Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Paratoi i Arwain a Rheoli yn y Maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd — **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 3

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- cbac wjec — TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymbeithasol, a Gofal Plant — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer — **Yn fyw erbyn: Medi 19**

## Lefel 2

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Craidd*** — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: **Craidd*** — **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer — **Yn fyw erbyn: Medi 19**

### Allwedd

- Seiliedig ar ymarfer (glas)
- Seiliedig ar wybodaeth (gwyrdd)
- * Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3 (llwyd)
- City & Guilds — Cynigir gan City & Guilds
- cbac wjec — Cynigir gan CBAC

# Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Rydych yn gweithio tuag at gymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**, sydd ar gyfer pobl sy'n gweithio, neu sy'n dymuno gweithio, mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn eich galluogi i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu gamu ymlaen yn eich gyrfa mewn sefydliadau neu leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cymhwyster hwn yn meithrin eich gallu i ddiwallu anghenion iechyd a gofal oedolion mewn amrywiaeth o leoliadau, a hynny'n ymarferol. Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu eich gwybodaeth a'ch ymarfer drwy eich gwaith.

Bydd cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** yn eich galluogi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, byddwch yn gallu dangos eich bod:

- yn deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sydd wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol
- yn deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy eich ymarfer eich hun
- yn myfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- yn deall rolau swyddi a ffyrdd o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- yn defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eich rôl.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gofyn i chi eu cyflawni yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**. Cyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn, argymhellir yn gryf eich bod wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**.

Noder mai un o ofynion Gofal Cymdeithasol Cymru yw y bydd angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol feddu ar gymwysterau:

- **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**

ac i weithio mewn swyddi penodol

- **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Erbyn diwedd eich cymhwyster, byddwch hefyd wedi meithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiad, y sgiliau a'r ymarfer sylfaenol sydd eu hangen arnoch i'ch cefnogi i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu gyflogaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod?

Mae cynnwys cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â’r sefydliadau a'r unigolion canlynol:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Tiwtoriaid, athrawon, aseswyr ac arbenigwyr eraill.

Caiff y cynnwys ei lywio gan Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y strwythur a'r cynnwys hwn yn eich galluogi i fod yn hyderus y gallwch ddangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n bosibl y bydd cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lywio eu rhaglen sefydlu yn y gweithle ac felly bydd cwblhau'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** yn eich helpu i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

Bydd dysgwyr sydd mewn swyddi ar hyn o bryd eisoes wedi cwblhau rhaglen sefydlu ffurfiol ac felly mae'n bosibl y bydd ganddynt sylfaen wybodaeth gref a fydd yn cefnogi eu dysgu. Bydd tiwtoriaid/aseswyr am drafod yr hyn rydych eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud er mwyn osgoi ailadrodd elfennau o'r dysgu yn ddiangen. Fodd bynnag, ar gyfer rhai rolau yn y sector bydd angen i chi gwblhau'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** er mwyn gallu cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, er enghraifft gweithwyr gofal cartref o fis Ebrill 2020. Ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru i gael rhagor o wybodaeth am rolau lle mae cofrestriad proffesiynol yn ofynnol: https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru.

Mae'n debygol y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eich ardal a bydd wedi datblygu rhaglen astudio er mwyn sicrhau bod holl ofynion y cymhwyster yn cael eu bodloni'n llawn. Efallai y byddwch yn dysgu mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth draddodiadol, neu efallai y defnyddir dull mwy cymysg sy'n cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein.  Fel arall, mae'n bosibl y cewch eich cefnogi i ddysgu 'wrth weithio' ac i wneud peth gwaith astudio hunangyfeiriedig.  Pa bynnag ddull dysgu a ddefnyddir, rydym wedi darparu rhai adnoddau cefnogol a fydd yn eich helpu ar eich taith.

Mae adnoddau'r cymhwyster ar gael yn Gymraeg a Saesneg.  Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr ynghylch cwblhau'r cymhwyster yn Gymraeg. Mae deunyddiau cefnogi sydd ar gael ar-lein gan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys:

- llawlyfr y cymhwyster
- canllaw ar gyflwyno'r cymhwyster
- pecyn asesu.

P'un a ydych yn yr ysgol, coleg neu'n cael eich cefnogi gan ddarparwr yn y gweithle, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi.  Gall nifer o ffactorau gwahanol ddylanwadu ar y ffordd rydych yn dysgu, gan gynnwys yr hyn sy'n eich cymell a pha fath o amgylchedd sydd ei angen arnoch.  Bydd eich tiwtor/athro/aseswr am weithio gyda chi i ganfod sut y gall eich helpu i ddysgu'n effeithiol – cyfeirir at hyn yn aml fel eich **'arddull ddysgu ddewisol'** (gweler tudalen 43 am fwy o wybodaeth am eich 'arddull ddysgu ddewisol').



# Strwythur y cymhwyster

Mae cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol:

Mae un uned yn y grŵp gorfodol:

- 230 Cefnogi ymarfer craidd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)

Mae 2 grŵp o unedau dewisol, gyda 36 o unedau i gyd. Mae gan grŵp A 11 o unedau ac mae gan grŵp B 25 o unedau. Mae'n rhaid i chi ddewis **o leiaf 3 uned ddewisol**, y mae'n rhaid i 2 ohonynt fod o grŵp A. Mae'n rhaid i'ch unedau dewisol gyfateb i o leiaf 21 o gredydau i gyd, y mae'n rhaid i 14 ohonynt fod o grŵp A.

Y prif ddulliau asesu yn y cymhwyster hwn fydd drwy gyfres o dasgau strwythuredig, portffolio o dystiolaeth a thrafodaeth a arweinir gan yr aseswr. Mae'r gweithgareddau asesu hyn wedi cael eu dylunio er mwyn casglu tystiolaeth gyfannol; mae hyn yn golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gwaith go iawn sy'n dangos y gallwch weithio'n hyderus ac yn gyson ym mhob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur. Byddant yn eich cefnogi i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn gwahanol unedau a deilliannau dysgu yn yr un gweithgaredd, a bydd hyn yn lleihau unrhyw ailadrodd wrth asesu.

Bydd y tasgau yn gofyn i chi integreiddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector er mwyn darparu gofal a chymorth effeithiol. Felly, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb eich ymarfer.

# Beth yw uned?


Mae’r holl wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u trefnu mewn unedau – yn debyg i benodau mewn llyfr. Gweler isod ddarlun o drefn yr unedau ar gyfer y cymhwyster hwn ac rydym wedi nodi rhai agweddau ac iaith allweddol y byddwch yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â nhw wrth i chi ddatblygu ar eich taith ddysgu ac asesu.

**Rhif yr Uned**

**Lefel yr Uned**

**Nod/Crynodeb o'r uned:**
Crynodeb ar lefel uchel o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a/neu'r sgiliau o gynnwys yr uned y mae disgwyl i'r dysgwr eu cyflawni wrth ei chwblhau. Gall gynnwys gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddynt neu y mae wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddynt.

**Deilliant Dysgu (DD):**
Rhan ar wahân i nodi'r hyn i'w ddysgu, sy'n berthnasol i nod yr uned. Bydd nifer y DD yn amrywio yn ôl uned.



Uned 231 | Cyfrannu at ofal a chymorth unigolion sy'n byw gartref

| | |
|---|---|
| Lefel: | 2 |
| ODA: | 45 |
| Credyd: | 7 |
| Crynodeb o'r Uned: | Mae'r uned hon yn anelu at gefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ofalu am unigolion, a'u cefnogi, mewn ffordd sensitif a diogel yn eu cartrefi eu hunain. |

Deilliant dysgu:
1. Cefnogi unigolion i fyw gartref

Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Y mathau o ofal a chymorth y gall unigolion eu cael yn eu cartref eu hunain
1.2 Y rhesymau y gall fod angen i unigolion gael gofal a chymorth yn eu cartref eu hunain
1.3 Manteision helpu unigolion i fyw yn eu cartref eu hunain
1.4 Yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol a all helpu unigolion i fyw yn eu cartref eu hunain
1.5 Cyfraniad teuluoedd/gofalwyr at ofal a chymorth parhaus unigolion
1.6 Hawliau gofalwyr i dderbyn cymorth eu hunain

Deilliant dysgu:
2. Cyfrannu at gefnogi unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr gyda newid a thrawsnewid

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
2.1 **Effeithiau posibl** newid ar unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr o ran cael gofal a chymorth yn eu cartref eu hunain
2.2 Pwysigrwydd:
cydnabod ac ystyried effaith newid ar unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
cefnogi unigolion i gynnal eu hunaniaeth bersonol yn ystod cyfnodau o newid
peidio â barnu amgylchiadau personol unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr na'r ffordd maen nhw am fyw eu bywydau
sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn gwybod pa ofal a chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth/gweithiwr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

38 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) Llawlyfr y Cymhwyster


**Teitl yr Uned**

**ODA:**
Nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a argymhellir ar gyfer yr uned.

**Meini Prawf Asesu (MPA):**
Eitemau o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd eu hangen i fodloni deilliant dysgu penodol. Asesir pob MPA dros amser yn hytrach na thrwy un asesiad.

# Mae rhai geiriau a datganiadau yn ymddangos mewn print trwm – pam hynny?

Ym mhob uned byddwch yn sylwi bod rhai geiriau a datganiadau mewn print **trwm**. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried y rhain mewn ffordd benodol, neu fod diffiniad neu ystyr penodol y mae angen eu defnyddio. Ceir rhagor o wybodaeth am y geiriau a'r datganiadau hyn yn adran 'Amrediad' yr uned.



**Uned 234** Cyfrannu at gefnogi unigolion gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig

| | |
|---|---|
| Lefel: | 2 |
| ODA: | 10 |
| Credyd: | 2 |
| Crynodeb o'r Uned: | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi unigolion i ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig. |

Deilliant dysgu:

1. Hyder wrth ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig

Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Sut mae technoleg yn rhan o fywyd bob dydd ac yn gallu **trawsnewid bywydau** unigolion a theuluoedd/gofalwyr
1.2 Eich rôl eich hun wrth gefnogi pobl eraill i ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig a sut a phryd i gael cymorth ychwanegol
1.3 Sut i gefnogi'r defnydd diogel o dechnoleg gynorthwyol electronig
1.4 Y camau i'w cymryd os bydd technoleg gynorthwyol electronig y n methu/torri i lawr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 Cefnogi unigolion a theuluoedd/gofalwyr i **ddefnyddio** technoleg gynorthwyol electronig yn **ddiogel**

Amrediad

**Trawsnewid bywydau** - helpu i gymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon, cefnogi annibyniaeth, dysgu a datblygu, llesiant, ansawdd bywyd a mynediad at wasanaethau a gwybodaeth

**Defnydd diogel** - dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer ei defnyddio a'i chynnal a'i chadw, ei gwefru'n ddiogel, ei throi ymlaen a'i diffodd, defnyddi o swyddogaethau sylfaenol, y mesurau diogelwch sydd ar waith wrth fynd ar y we a defnyddio cyfryngau cymdeithasol

Deilliant dysgu:

2. Hawliau, gwerthoedd a thechnoleg gynorthwyol electronig

Rydych yn gwybod:

2.1 Sut y gall technoleg gynorthwyol electronig hybu a diogelu llesiant a hawliau unigolion
2.2 Sut y gall technoleg gynorthwyol electronig gefnogi cymryd risgiau cadarnhaol
2.3 Pwysigrwydd cael **cydsyniad** i ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig

60 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) Llawlyfr y Cymhwyster

**Geiriau mewn print trwm**

**Amrediad:**
Yn nodi'n union yr hyn y mae angen ei ystyried wrth ymdrin â'r geiriau neu'r datganiadau hyn mewn print trwm.

# Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth am bob uned?

Ar ddiwedd pob uned rydym wedi darparu canllawiau pellach a bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn cyfeirio at y rhain er mwyn llywio'r ffordd y bydd yn addysgu, dysgu ac asesu. Gweler y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer Uned 332 isod. Efallai y byddai'n fuddiol i chi edrych ar y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer pob uned yn y cymhwyster hwn. Gellir canfod rhain yn Llawlyfr y Cymhwyster.

**Unit 232 Darparu gofal a chymorth i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal**

Gwybodaeth Ategol

***Gofynion tystiolaeth***

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwyth uredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu

***Canllawiau cyflwyno***

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cy mhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Cymhorthion, addasiadau a chyfarpar:** technoleg gynorthwyol electronig, cymorth cyfathrebu personol, addasiadau i'r amgylchedd, cymhorthion gweledol, cymhorthion clyw, cymhorthion symudedd.

Gallai **cynlluniau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes** gynnwys:

Cynlluniau personol
Cynlluniau gofal lefel uwch
Cyfarwyddebau lefel uwch.

Byddai'r **canlyniadau a wynebir gan unigolion** os ydyn nhw'n cael eu gadael am gyfnodau hir heb ysgogiad yn cynnwys:

Corfforol:

Gwastraff cyhyrol
Atroffi'r galon
Pwysedd gwaed uwch
Mwy o risg o niwed i'r croen/wlserau pwyso.

Seicolegol:

Llesgedd a diflastod
Iselder a blinder
Dryswch
Penbleth
Colli hyder a sgiliau.

Gallai'r **mathau gwahanol o gartrefi gofal** gynnwys:

Cartrefi gofal i oedolion
Cartrefi nyrsio
Seibiant / cyfnodau byr
'Camu i fyny/camu i lawr'
Gofal ychwanegol.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gyfathrebu** i gynnwys:

Colli golwg



Colli clyw
Dementia
Iechyd corfforol ac iechyd meddwl
Iaith
Yr amgylchedd
Perthnasoedd.

**Bywyd llawn a gwerthfawr** i gynnwys:

Dewis a rheolaeth dros fân bethau bob dydd a materion arwyddocaol mewn bywyd
Llesiant cymdeithasol ac economaidd
Cael a chymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o brofiadau a gweithgareddau ystyrlon
Gofal corfforol ac iechyd meddwl
Perthnasoedd rhywiol
Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
Cynhwysiant cymdeithasol
Perthnasoedd a chyfeillgarwch
Cysylltiadau cymunedol
Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
Cefnogi cysylltiadau ac arferion ffydd a diwylliannol
Rheoli cyllid.

Gallai'r **archwiliadau iechyd** gynnwys:

Mynediad at brofion llygaid, golwg a chlyw rheolaidd
Cyngor a chymorth deietetig
Mynediad at wasanaethau podiatreg a deintyddol
Cymorth i weld meddyg teulu a chael meddyginiaeth
Cymorth iechyd meddwl arbenigol
Hybu iechyd a chymorth ail -alluogi.

**Cyflyrau iechyd sydd fel arfer yn gysylltiedig â heneiddio:** dementia, strôc, nam ar y synhwyrau, problemau ymataliaeth.

Gallai'r **dulliau gweithredu** gynnwys:

Cadarnhau bod yr unigolyn yn deall
Siarad yn araf ac yn glir heb amharaeth amgylcheddol
Defnyddio llun, ffotograffau, dyfeisiau electronig, symbolau neu wrthrychau cyfeirio i gefnogi'r broses gyfathrebu
Cefnogi dewis iaith rhywun, gan gynnwys defnyddio dehonglwyr
Iaith y corff a chyfathrebu di -eiriau
Meithrin ymddiriedaeth
Iaith arwyddion.

**Mannau eraill:** ysbyty (derbyn/rhyddhau), cartref eich hun, camu i fyny/camu i lawr, cartref gofal i gartref nyrsio.

# Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanynt?

Mae pob un o'r unedau yn y cymhwyster yn cynnwys meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel y dangosir uchod, caiff y rhain eu cyflwyno ar ffurf Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Asesu. Gweler isod drosolwg o bob grŵp o unedau yng nghymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**:

| UNEDAU GORFODOL | |
|---|---|
| Uned 230: Cefnogi ymarfer craidd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Mae cynnwys yr uned hon yn adlewyrchu'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r egwyddorion sylfaenol y dylid arsylwi arnynt a'u hadlewyrchu mewn ymarfer ym mhob gweithgaredd iechyd a gofal rydych yn ymgymryd ag ef. Mae'r cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yng nghymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion). |

| GRŴP DEWISOL A | GRŴP DEWISOL B |
|---|---|
| • Uned 231: Cyfrannu at ofal a chymorth unigolion sy'n byw gartref<br>• Uned 232: Darparu gofal a chymorth i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal<br>• Uned 233: Cyfrannu at gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia<br>• Uned 234: Cyfrannu at gefnogi unigolion gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig<br>• Uned 235: Cyfrannu at gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau ail-alluogi<br>• Uned 236: Cyfrannu at gefnogi unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Uned 338: Hybu cymorth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth<br>• Uned 339: Hybu dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad<br>• Uned 340: Cefnogi unigolion sy'n byw gydag iechyd meddwl gwael<br>• Uned 341: Cefnogi unigolion â nam corfforol<br>• Uned 342: Cefnogi unigolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd | • Uned 237: Cefnogi oedolion sy'n byw gyda diabetes mellitus<br>• Uned 209: Ymateb i adweithiau anaffylactig<br>• Uned 238: Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn oedolion<br>• Uned 239: Cefnogi unigolion i reoli ymataliaeth<br>• Uned 212: Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli<br>• Uned 240: Cefnogi unigolion i barhau i allu symud o gwmpas a lleihau'r risg o gwympo<br>• Uned 241: Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn oedolion<br>• Uned 214: Cynnal profion pwynt gofal<br>• Uned 215: Casglu sbesimenau<br>• Uned 242: Cefnogi unigolion â nam ar y synhwyrau<br>• Uned 243: Cefnogi ymarfer diogelwch bwyd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Uned 244: Cefnogi unigolion i reoli poen ac anesmwythyd<br>• Uned 245: Cymryd darlleniadau anterth llif allanadlol (PEFR)<br>• Uned 246: Cyflwyniad i ddirywiad acíwt<br>• Uned 343: Cefnogi oedolion sy'n byw gydag epilepsi<br>• Uned 314: Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau<br>• Uned 344: Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan oedolion<br>• Uned 345: Darparu gofal i oedolion sy'n byw gyda chanser<br>• Uned 346: Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i oedolion<br>• Uned 350: Cefnogi'r defnydd o feddyginiaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol<br>• Uned 353: Darparu gofal i oedolion sy'n defnyddio cathetrau wrinol a leolir y tu mewn i'r corff<br>• Uned 354: Darparu gofal a chymorth i oedolion â Chlefyd Coronaidd y Galon<br>• Uned 356: Cefnogi unigolion sydd â gofynion deietegol arbennig gyda'u maeth a'u hydradiad<br>• Uned 359: Darparu gofal a chymorth i oedolion â chyflyrau anadlol cronig<br>• Uned 360: Darparu cymorth i unigolion sydd wedi cael strôc |

# Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn?

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** bydd angen i chi wneud y canlynol:

- gweithio'n agos gyda'ch **tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr**
- bod yn barod i ddysgu am bethau newydd sy'n ymwneud â gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a chael profiadau ohonynt
- paratoi ar gyfer eich asesiadau a'u cwblhau – ceir rhagor o wybodaeth am asesu ar dudalen 26.

**Beth yw tiwtor/athro?**

Gall eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle neilltuo tiwtor/athro i chi. Mae'n annhebygol y bydd yn gweithio gyda chi'n unig, er bod hyn yn digwydd o dro i dro. Mae tiwtor/athro yn rhywun a fydd yn eich cefnogi a'ch arwain a bydd yn eich helpu i ddysgu am y pethau pwysig y mae angen i chi eu gwybod er mwyn gweithio'n ddiogel ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd eich tiwtor/athro yn defnyddio adnoddau dysgu a thechnegau addysgu sydd wedi'u dylunio i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr asesiad.

**Beth yw aseswr?**

Aseswr yw rhywun sy'n gymwys yn alwedigaethol, sy'n golygu bod ganddo brofiad ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y caiff aseswr ei neilltuo i chi gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle. Fel arfer bydd yn gweithio gyda mwy nag un dysgwr, ond bydd yn asesu pob dysgwr yn unigol fel rheol. Bydd eich aseswr yn eich cefnogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer asesiad a bydd yn rhan o wneud penderfyniadau asesu o ran pa mor dda rydych yn gwybod ac yn deall y wybodaeth sylfaenol y cyfeiriom ati uchod.

BYDDWCH HEFYD YN DOD I GYSYLLTIAD Â PHOBL ALLWEDDOL ERAILL WRTH I CHI WEITHIO TUAG AT ENNILL EICH CYMWYSTERAU, GAN GYNNWYS Y DARPARWR SICRHAU ANSAWDD MEWNOL, A PHAN FYDDWCH CHI WEDI CWBLHAU EICH HOLL ASESIADAU, MAE'N BOSIBL Y CEWCH GYFLE I GWRDD Â'R DARPARWR SICRHAU ANSAWDD ALLANOL.

**Beth yw Darparwr Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA)?**

Caiff Darparwr Sicrhau Ansawdd Mewnol ei ddynodi gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle. Ei brif swyddogaeth yw rheoli tîm o aseswyr er mwyn cynnal uniondeb y rhaglen neu'r cymhwyster sy'n cael ei chyflwyno/ei gyflwyno. Mae'n gwneud hyn drwy sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cymhwyso a bod tiwtoriaid/athrawon/aseswyr yn dehongli, yn deall ac yn defnyddio safonau a gofynion y cymwysterau mewn modd cywir, teg a chyson. Bydd diddordeb ganddo mewn deall sut rydych wedi cael eich cefnogi drwy'r broses o ennill eich cymhwyster ac felly efallai y bydd yn trefnu i siarad â chi cyn i chi orffen eich rhaglen astudio.

**Beth yw Darparwr Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA)?**

Caiff Darparwr Sicrhau Ansawdd Allanol ei ddynodi gan y **Corff Dyfarnu** ac mae'n gweithio'n agos gydag ysgolion, colegau a darparwyr yn y gweithle, a thrwy ddefnyddio proses fonitro mae'n sicrhau bod y broses dysgu ac asesu o'r ansawdd uchaf ar waith. Fel rhan o'i rôl, gall Darparwr Sicrhau Ansawdd Allanol weithio'n agos iawn gyda Darparwyr Sicrhau Ansawdd Mewnol a bydd hefyd yn cysylltu â thiwtoriaid/athrawon/aseswyr/mentoriaid yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau monitro mae'n bosibl y bydd yn gofyn i siarad â dysgwyr unigol. Mae diddordeb ganddo mewn clywed am brofiad y dysgwr ac ansawdd y cymorth rydych wedi'i gael ac felly bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i benderfynu a oes angen cymorth a chyngor ychwanegol ar yr ysgol, y coleg neu'r darparwr yn y gweithle.

# Ymgysylltu â chyflogwyr

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** mae'n rhaid i chi fod yn gweithio mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig cyfle i'ch cyflogwr gael ei gynnwys yn eich dysgu, eich datblygiad a'ch cynnydd drwy gydol eich cymhwyster ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i gefnogi'n gryf.

## Beth yw mentor yn y gweithle?

Efallai y caiff mentor yn y gweithle ei neilltuo i chi gan eich cyflogwr. Nid yw hyn yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod mentoriaid yn chwarae rôl bwysig mewn dysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor yn y gweithle yn eich helpu i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn rydych yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r ffordd mae'n ymwneud â byd gwaith. Yn ogystal, gall eich helpu i nodi unrhyw gyfleoedd dysgu sy'n codi 'wrth weithio' a'ch helpu i wneud y gorau ohonynt.

## Nid oes swydd gen i, a allaf barhau i wneud y cymhwyster hwn?

Os nad ydych mewn gwaith ar hyn o bryd, argymhellir yn gryf eich bod yn cwblhau'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**. Mae'r cymhwyster Egwyddorion a Chyd-destunau yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgysylltu â'r sector am o leiaf 10 diwrnod, y mae'n rhaid treulio o leiaf 5 diwrnod (30 awr) ohonynt yn ymgymryd â lleoliad gwaith.

# Sut allai fy nghyflogwr fod yn rhan o fy nysgu?

**Cam 1 – Cyn cyflwyno**

- **Cofrestriad cychwynnol a dewis unedau**
  - Eich cefnogi i ddeall yr opsiynau uned sydd ar gael a'ch helpu i ddewis unedau a fydd fwyaf perthnasol i'ch rôl/gyrfa barhaus.

**Cam 2 – Cyfnod Dysgu**

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**
  - Eich cefnogi drwy'r broses o ddysgu a hyfforddi wrth weithio. Sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi drwy fonitro yn y gweithle a gweithgareddau DPP arferol, e.e. mynychu cyfarfodydd un-i-un/goruchwylio rheolaidd, diweddaru log myfyriol, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer asesiad.
- **Mynediad at asesiad crynodol – arsylwadau**
  - Gallai eich rheolwr gysylltu â'r aseswr i bennu'r pwynt pan ystyrir eich bod yn barod am asesiad ffurfiannol.
  - Bydd eich aseswr yn cynnal **o leiaf ddau asesiad ffurfiannol** er mwyn penderfynu a ydych yn barod i gael eich asesu.
  - Ceir trafodaeth gyda chi ynghylch canlyniad eich arsylwadau ffurfiannol ac mae'n cadarnhau eich bod yn barod i gael eich asesu.

**Cam 3 – Cyfnod Asesu**

- **Cyn yr asesiad**
  - Efallai y bydd eich rheolwr yn cyfarfod â'ch aseswr er mwyn cadarnhau ac egluro, os oes angen, ei ddealltwriaeth o'r gofynion asesu, gan gynnwys mapio canlyniadau a phrosesu disgwyliadau.
- **Cyfarfod gwirio cychwynnol yr ymgeisydd cyn asesu**
  - Efallai y byddwch yn cwrdd â'ch rheolwr i drafod a chynllunio eich trefniadau a'ch amserlen ar gyfer eich asesiad crynodol.
  - Cynnal gweithgareddau cytûn yn y gweithle yn barhaus drwy'r cyfnod asesu, e.e. cyfarfodydd cynnydd rheolaidd.
  - Ceisio cymorth gan eich rheolwr i'ch helpu i nodi'r dystiolaeth orau ar gyfer eich portffolio a'ch log myfyriol.
- **Cynllunio cyfarfod ar gyfer asesu**
  - Gofynnwch i'ch rheolwr adolygu eich cynlluniau terfynol a chymeradwyo gwaith papur perthnasol.

**Cam 4 – Cwblhau**

- **Cadarnhau'r penderfyniad**
  - Bydd eich aseswr yn cwrdd â'ch rheolwr i roi gwybod iddo beth yw canlyniad yr asesiad.

# Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster?

**Cam 1 – Cyn cyflwyno**

- Cwblhau cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** – ni fydd pob dysgwr yn cwblhau'r cymhwyster Craidd, ond mae'n bosibl y bydd gwneud hynny yn ddefnyddiol er mwyn symud ymlaen.
- Cofrestriad cychwynnol a dewis unedau dewisol.

**Cam 2 – Cyfnod Dysgu**

- Cyfnod dysgu ffurfiol – gallai hyn gynnwys dysgu wrth weithio, astudio annibynnol, gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.
- O leiaf ddau arsylwad ffurfiannol ffurfiol gan aseswr.

*Ar ôl cwblhau'r arsylwadau, byddwch yn trafod ac yn cytuno â'ch rheolwr a'ch aseswr eich parodrwydd i gael eich asesu.*

**Cam 3 – Cyfnod Asesu**

- Cyfarfod gwirio cychwynnol yr ymgeisydd cyn asesu – bydd hwn gyda'ch aseswr a'ch rheolwr.
- Tasg A (gweithgareddau dyddiol parhaus) – gweler tudalen 26 i gael rhagor o wybodaeth am y log myfyriol.
- Tasg B (cynllunio pedwar gweithgaredd gofal a chymorth).
- Cyfarfod cynllunio ar gyfer asesu – bydd hwn gyda'ch aseswr a'ch rheolwr.
- Tasg C (sefydlu pob gweithgaredd gofal a chymorth a'i roi ar waith).
- Tasg CH (adolygiad myfyriol o bob gweithgaredd gofal a chymorth).

  *Mae'n rhaid i dasgau B, C ac CH gael eu cwblhau ar gyfer pedwar cyfle/profiad – gallai hyn olygu o leiaf bedwar arsylwad asesiad crynodol.*
- Cyflwyno eich portffolio a'ch log myfyriol terfynol i'ch aseswr.
- Task D (trafodaeth 15-20 munud a arweinir gan yr aseswr).
- Gwneir y penderfyniad asesu terfynol.

**Cam 4 – Cwblhau**

- Cadarnhau'r penderfyniad.

Ar ôl eich trafodaeth a arweinir gan yr aseswr, bydd eich aseswr yn gwerthuso'r holl dystiolaeth o'r holl dasgau er mwyn barnu p'un a oes digon o dystiolaeth i ddyfarnu'r cymhwyster. Os nad oes digon o dystiolaeth mewn unrhyw faes, cewch eich cefnogi i ddarparu tystiolaeth ychwanegol.

# Cam 1 – Cyn cyflwyno

- **Cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**

Cyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn, argymhellir yn gryf eich bod chi wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**.

- **Cofrestriad cychwynnol a dewis unedau**

Byddwch yn trafod opsiynau sydd ar gael ar gyfer cwblhau'r cymhwyster gyda'ch rheolwr a'ch aseswr, e.e. dewis unedau dewisol.

Byddwch yn cwblhau asesiad cychwynnol cyn dechrau eich rhaglen er mwyn nodi:

- a oes gennych unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cymorth a chyfarwyddyd y gallai fod arnoch eu hangen wrth weithio tuag at eich cymhwyster
- unrhyw unedau rydych eisoes wedi'u cwblhau, neu gredydau rydych wedi'u cronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau eich bod yn deall gofynion y cymhwyster, eich cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan, yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu. Mae'n fuddiol iawn i'ch rheolwr gymryd rhan yn y drafodaeth hon neu gyfrannu ati.

## Pa unedau fyddaf yn eu cwblhau?

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**, rhaid i chi ennill **lleiafswm** o 35 o gredydau:

- rhaid ennill 14 credyd o'r grŵp gorfodol
- rhaid ennill o leiaf 14 credyd o grŵp dewisol A
- gellir ennill y 7 credyd sy'n weddill o unedau o fewn grwpiau dewisol A neu B.

**Lleiafswm** yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 175.

Mae'n fuddiol i'ch rheolwr gymryd rhan yn y broses ddewis hon. Siaradwch â'ch rheolwr am ba unedau dewisol sy'n gweddu orau i'ch rôl yn y lleoliad ac am eu gweledigaeth o'r gwasanaethau a ddarperir.

## Beth yw credydau?

Rydym wedi dyfarnu gwerth credyd i bob uned. Gellir dod o hyd i'r gwerthoedd hyn yn llawlyfr y cymhwyster. Mae'r credydau a ddyfarnwyd i uned yn adlewyrchu lefel a swm y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiad, y sgiliau a'r ymarfer a gaiff eu cyflawni drwy gwblhau'r uned.

e.e. Dyfarnwyd 2 credyd i Uned 234, Cyfrannau at gefnogi unigolion gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig.
Dyfarnwyd 8 credyd i Uned 342, Cefnogi unigolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd.

## Grŵp gorfodol

Mae un uned orfodol y mae'n rhaid i chi ei chwblhau: Uned 230 Cefnogi ymarfer craidd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion).

Mae Uned 230 wedi'i dylunio i adlewyrchu'r sgiliau ymarferol a thechnegol sydd eu hangen er mwyn cymhwyso'n ymarferol y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o gymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**. Mae asesiad Uned 230 yn nodwedd o'r broses ffurfiannol a chrynodol ac yn rhan sylfaenol o'r cymhwyster.

## Grŵp dewisol A

Mae 11 uned yn y grŵp hwn ac mae'n rhaid i chi gyflawni **o leiaf 14** credyd.  Dylech ddewis yr unedau sydd fwyaf perthnasol i'ch amgylchiadau gwaith presennol.

Mae'r unedau hyn yn canolbwyntio ar weithio gyda grwpiau penodol o oedolion mewn lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Mae Uned 231 yn ymwneud ag unigolion sy'n byw gartref, ac mae Uned 232 yn ymwneud â chefnogi pobl sy'n byw mewn cartref gofal. Mae Uned 233 yn ymwneud â chefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia, ac mae Uned 236 yn ymwneud â chefnogi unigolion y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar eu bywydau, ac mae Uned 338 yn ymwneud â sut i gefnogi unigolion sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.

I gwblhau uned yn y grŵp hwn, mae'n rhaid i chi fod yn cefnogi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau perthnasol, naill ai gartref neu yn eu cymuned. Mae'n rhaid i chi ddewis **o leiaf 2** uned o'r grŵp hwn; dylech siarad â'ch rheolwr a thrafod addasrwydd yr unedau rydych yn eu hystyried.

## Grŵp dewisol B

Mae 25 o unedau yng ngrŵp B. Mae nifer o unedau yn berthnasol i ddarpariaeth gofal iechyd benodol yn y gymuned ac, mewn rhai achosion, byddant yn fwy perthnasol i'r rheini sy'n gweithio fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.  Mae asesiad ymarferol yn ofynnol ar gyfer pob uned yn y grŵp hwn ac felly dylech ddewis unedau y gallwch ddatblygu a dangos cymhwysedd ar eu cyfer yn unig; dylech drafod hyn â'ch rheolwr a'ch aseswr a dewis yr unedau sydd fwyaf priodol i chi yn eich rôl bresennol yn unig.

# Cam 2 – Cyfnod Dysgu

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**

Byddwch yn ymgymryd â dysgu a hyfforddiant wrth weithio; ac asesiad ffurfiannol parhaus.

- **Mynediad at asesiad crynodol – arsylwadau**

Bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch yn ymarfer ar o leiaf ddau achlysur ffurfiol.

*Ar ôl cwblhau arsylwadau, byddwch yn trafod ac yn cytuno â'ch rheolwr a'ch aseswr eich parodrwydd i gael eich asesu.*

Cyn y cyfnod dysgu, bydd eich rheolwr a'ch aseswr yn trafod yr amserlen ddisgwyliedig a fydd yn ofynnol i'ch paratoi i gael eich asesu; bydd hyn yn cynnwys nodi'r mathau o dystiolaeth barhaus y gall eich rheolwr eu defnyddio i nodi'ch cynnydd, ac a fydd yn magu hyder yn eich 'parodrwydd'.

Yn ystod misoedd cynnar cyntaf eich cymhwyster byddwch yn dysgu'r sgiliau ac yn cydgrynhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol i arddangos eich cymhwysedd a'ch parodrwydd i gael eich asesu. Gall y dysgu hwn gael ei gynnal yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gweithle, gan ddilyn cynllun y bydd eich rheolwr a'ch aseswr wedi cytuno arno. Os ydych yn cael sgyrsiau rheolaidd gyda'ch rheolwr – megis cyfarfodydd un i un, sesiynau goruchwylio, cyfarfodydd tîm ac ati – gallai'r rhain fod yn amser defnyddiol i chi drafod eich taith ddysgu a'ch cynnydd â'ch rheolwr ynghyd ag unrhyw gymorth rydych yn teimlo sydd ei angen arnoch. Os cânt eu cofnodi, gallai'r sgyrsiau hyn gael eu cynnwys yn eich portffolio o dystiolaeth hefyd.

Mae'n rhaid i chi ddangos eich cymhwysedd a'ch hyder yn Uned orfodol 230, y mae ei chynnwys yn adlewyrchu'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r egwyddorion ategol y dylid eu dilyn a'u hadlewyrchu yn ymarferol yn yr holl weithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol y mae dysgwyr yn cymryd rhan ynddynt, ac sy'n adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yng nghymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**. Ni fydd y broses asesu yn dechrau ar gyfer gweddill y cymhwyster nes eich bod wedi dangos eich cymhwysedd yn yr uned hon.

## Parodrwydd ar gyfer asesu – arddangos cymhwysedd

Mae'n bwysig sicrhau mai dim ond pan fydd eich rheolwr a'ch aseswr yn hyderus eich bod yn ddigon cymwys i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus y dylech gael eich asesu. Dylai hyn ddigwydd pan fydd y rhan fwyaf o'r dysgu wedi'i gyflwyno, ac yn dilyn rhaglen asesu barhaus a ffurfiannol.

1. Cyfarfod gwirio rhwng yr aseswr a'r rheolwr i wneud yn siŵr eich bod ar y trywydd cywir ac i wneud trefniadau ar gyfer arsylwi.
   - Yn dilyn y cyfarfod hwn byddwch yn cael trafodaeth gyda'ch aseswr a'ch rheolwr i gadarnhau eich bod yn cytuno â'u penderfyniad.
2. Bydd eich aseswr yn cwblhau o leiaf dau arsylwad ffurfiannol.
   - Yn ystod yr arsylwadau hyn byddwch yn dangos eich cymhwysedd a'ch hyder yn Uned orfodol 330.
3. Byddwch yn cael trafodaeth gyda'ch aseswr a'ch rheolwr i drafod canlyniad eich arsylwadau a pha mor barod ydych chi i gael eich asesu.

Unwaith y bydd pob parti – chi, eich rheolwr a'ch aseswr – yn hyderus eich bod yn barod, bydd eich asesiad crynodol yn dechrau.

# Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol

- **Cyfarfod gwirio cychwynnol yr ymgeisydd cyn asesu**

Byddwch yn mynd i gyfarfod gwirio cychwynnol er mwyn:

– deall yr asesiad i'w gwblhau

– pennu gofynion ac amodau ar gyfer Tasg A (h.y. sut y caiff y portffolio ei gadw; rôl y log myfyriol)

– trafod a chytuno ar amserlen ar gyfer cyfleoedd i drafod eich cynnydd a chael cyfarfodydd cynllunio.

- **Tasg A – gweithgareddau dyddiol parhaus**

Cadwch log myfyriol a lluniwch bortffolio o dystiolaeth – **yn barhaus drwy gydol y cyfnod asesu**.

- **Tasg B – cynllunio pedwar gweithgaredd gofal a chymorth**

- **Cyfarfod cynllunio ar gyfer asesu**

Ewch i'r cyfarfod cynllunio gyda'ch rheolwr er mwyn:

– cadarnhau pa mor gyflawnadwy yw'r cynlluniau

– cytuno ar yr adnoddau sydd eu hangen

– cwblhau 'ffurflen gynllunio'r ymgeisydd'.

- **Tasg C – sefydlu pob gweithgaredd gofal a chymorth a'i roi ar waith**

Cwblhau pob un o'r pedwar gweithgaredd gofal a chymorth a gynlluniwyd, gan ddilyn eich cynllun y cytunwyd arno, wrth i'ch aseswr arsylwi arnoch.

- **Tasg CH – adolygiad myfyriol o bob gweithgaredd gofal a chymorth**

Cwblhewch adolygiad myfyriol o bob un o'ch pedwar gweithgaredd gofal a chymorth.

*Mae'n rhaid i dasgau B, C ac CH gael eu cwblhau ar gyfer pedwar cyfle/profiad – gallai hyn olygu o leiaf bedwar arsylwad asesiad crynodol.*

- **Cwblhau tasgau asesu A – CH**

Ar ôl i chi gadarnhau a chytuno â'ch rheolwr bod yr holl weithgarwch asesu wedi'i gwblhau, cyflwynwch eich portffolio a'ch log myfyriol terfynol.

- **Tasg D – Trafodaeth broffesiynol am 15-20 munud a arweinir gan yr aseswr**

- **Gwneir penderfyniad terfynol yr asesiad**

## Sut fydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu?

Caiff cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** ei asesu'n gyfannol, sy'n golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gwaith go iawn sy'n dangos y gallwch weithio'n hyderus ac yn gyson ym mhob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur. Unwaith y byddwch chi, eich aseswr a'ch rheolwr yn cytuno eich bod yn barod i gael eich asesu, byddwch yn dechrau paratoi ar gyfer eich asesiad terfynol. Mae hyn yn cynnwys:

- set o dasgau strwythuredig
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth a arweinir gan aseswr.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Dros gyfnod o 6 mis o leiaf, byddwch yn gweithio gyda'r unigolion rydych yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi i gasglu tystiolaeth i gwblhau eich unedau dewisol. Bydd angen i chi ddangos sut rydych chi'n defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau ymarferol i gyfrannu at gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Byddwch yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau arferol sydd ar waith yn eich sefydliad/lleoliad, gan ddangos yr egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau allweddol sy'n sail i ofal unigolion yn y sector iechyd a gofal.

Disgwylir i chi gwblhau **log myfyriol** yn rheolaidd yn ystod y cyfnod, gan fyfyrio ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi yn eich rôl a nodi unrhyw rai o'ch anghenion datblygu eich hun i'w trafod ymhellach â'ch rheolwr/aseswr. Hefyd, bydd angen i chi gadw **portffolio o dystiolaeth** yn ystod y cyfnod asesu. Bydd eich aseswr a'ch rheolwr yn eich cefnogi i gasglu unrhyw dystiolaeth berthnasol.

Yn ystod y cyfnod o 6 mis o leiaf, bydd hefyd gofyn i chi gynllunio, gweithredu ac adolygu pedwar cynllun sy'n dangos sut y byddwch yn cyfrannu at gefnogi unigolion rydych yn gweithio gyda nhw yn eich rôl, neu gyfrannu at gefnogi cynlluniau personol unigolion rydych yn gofalu amdanyn nhw ac yn eu cefnogi. Dylai fod gan bob un o'r pedwar cynllun ffocws gwahanol – a dylent adlewyrchu cwmpas eich rôl a sut rydych yn cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant unigolion. Bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch bedair gwaith o leiaf, a gall ofyn cwestiynau i chi am eich ymarfer.

Ar ôl i'ch aseswr a'ch rheolwr gadarnhau bod yr holl weithgarwch asesu ymarferol wedi'i wneud a'i gyflawni, caiff eich portffolio a'ch log myfyriol eu cyflwyno i'w hasesu gan eich aseswr. Mae eich aseswr wedi cael ei hyfforddi i farcio gwaith mewn ffordd benodol a bydd yn dilyn canllawiau a ddarparwyd gan y **Corff Dyfarnu**. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn deg ac yn ddibynadwy. Caiff y broses hon ei gwirio gan y Darparwr Sicrhau Ansawdd Mewnol a'r Darparwr Sicrhau Ansawdd Allanol.

Byddwch yn cael trafodaeth derfynol gyda’r aseswr i roi cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau pellach ar feysydd lle maent yn teimlo nad oedd tystiolaeth ddigonol.


Bydd yr aseswr yn asesu'r holl dystiolaeth o'r holl dasgau er mwyn barnu p'un a oes digon o dystiolaeth i ddyfarnu'r cymhwyster.

## Pa dystiolaeth ychwanegol y gallwn i ei defnyddio?

Cesglir tystiolaeth ychwanegol drwy brosesau arferol y gweithle, gan gynnwys tystiolaeth gan eich cyflogwr neu fentor yn y gweithle:

- Tystion arbenigol
- Tystiolaeth tystion
- Cynhyrchion gwaith
- Cyfrifon yr ymgeisydd/myfyriol
- Cwestiynau
- Astudiaethau achos
- Llyfrau gwaith GCC wedi'u cwblhau
- Asesiadau wedi'u hefelychu.

# Crynodeb o'r asesiad ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)



# Beth yw log myfyriol?

Mae eich log myfyriol yn ddarn hanfodol o dystiolaeth i gwblhau eich cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**. Mae hwn yn ddarn ysgrifenedig o dystiolaeth lle rydych yn myfyrio ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi yn eich rôl a nodi unrhyw rai o'ch anghenion datblygu eich hun i'w trafod ymhellach â'ch rheolwr/aseswr.

Mae'r log hwn yn fwy na dyddiadur a bydd yn cynnwys mwy na chofnod o ddigwyddiadau, bydd hefyd yn cynnwys hunanfyfyrio, dadansoddiad beirniadol ac adolygiadau manwl o'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni, yr hyn sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'ch meddyliau a'ch teimladau o ran sut i ddatblygu a gwella yn ymarferol. Mae hefyd yn gyfle i chi arddangos eich bod yn gwybod ac yn deall y cysyniadau, y dulliau gweithredu, y polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n ategu ymarfer o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar hawliau.


Caiff eich rheolwr ei annog i'ch cefnogi i gwblhau'r log hwn gan ddefnyddio arddulliau myfyriol gwahanol, gan eich helpu i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eich arddull dysgu orau. Dylai eich rheolwr sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad ydych yn cael eich arwain, nac yn cael gwybod beth i'w ddweud, mewn ffordd sy'n eich atal rhag gallu dangos eich proses gwneud penderfyniadau a'ch ymarfer eich hun.

Mae myfyrdod yn broses barhaus, ac mae'n hynod werthfawr a phwysig, ac felly dylech ddiweddaru eich log yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod rhwng cyfarfodydd cynnydd; bydd eich log yn destun trafodaeth yn ystod cyfarfodydd cynnydd a bydd yn galluogi eich aseswr a'ch rheolwr i allu cefnogi'ch dysgu yn fwy gan bennu eich hyder a'ch gwybodaeth ynghyd â'ch parodrwydd ar gyfer yr asesiad.

Mae modelau myfyrio amrywiol y gallwch eu defnyddio ar gyfer eich log myfyriol **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**, fodd bynnag, argymhellir eich bod yn dilyn model Rachel Rayner ‘Head, Heart, Tummy, Toes’ (Pen, Calon, Bol, Bysedd Traed).

Bydd y model hwn yn eich arwain yn y gwahanol elfennau a haenau sy’n ofynnol mewn myfyrdod da, a thrwy hynny sicrhau eich bod yn cynnwys y manylion, dadansoddiad a myfyrdod angenrheidiol yn eich holl gofnodion.

**ADEGAU A GODODD WALLT EICH PEN**
Beth oedd yr adegau a wnaeth i chi feddwl "waw"? Beth wnaeth eich synnu? h.y. y pethau a wnaeth eich synnu; nad oeddech chi'n eu disgwyl? Beth roddodd groen gŵydd (goose-bumps) i chi?



**ADEGAU TWYMGALON (HEART-WARMING)**
Beth aeth yn dda?
Beth wnaeth i chi deimlo'n dda am yr hyn a wnaethoch?
Beth ddylech chi fod yn falch ohono?

**ADEGAU A ACHOSODD I'CH CALON SUDDO**
Beth yw'r adegau rydych chi'n meddwl oedd ddim wedi mynd fel yr oeddech wedi'i obeithio? Beth, os unrhyw beth, a wnaeth i'ch calon suddo? h.y. beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

**ADEGAU A WNAETH I CHI DEIMLO'N LLETCHWITH**
Beth oedd yr adegau a wnaeth i chi deimlo'n anghyfforddus?

# Beth yw trafodaeth dan arweiniad?

Y gweithgaredd asesu terfynol y mae'n rhaid i chi ei gwblhau yw trafodaeth ffurfiol gyda'ch aseswr. Datblygir yr asesiad hwn i gefnogi'ch aseswr i gadarnhau neu gydgrynhoi unrhyw fylchau yn eich tystiolaeth; neu i fagu hyder yr aseswr, yn enwedig ynghylch unrhyw agweddau ar wybodaeth na chawsant eu gweld neu na chawsant eu harchwilio'n llawn wrth arsylwi ar ymarfer.

Dylai'r drafodaeth fod yn rhan fach o'r asesiad cyffredinol; os bydd eich aseswr yn canfod bod y dystiolaeth sydd i'w chasglu o fewn yr elfen hon yn anghymesur o drwm, byddant yn adolygu hyn ac yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth amgen.

Bydd eich aseswr yn defnyddio'r drafodaeth i ofyn cwestiynau i chi ar feysydd y maent wedi'u nodi fel rhai nad oes ganddynt dystiolaeth ddigonol o fewn eich portffolio a'ch tasgau. Efallai y bydd yr aseswr wedi nodi'r diffygion hyn yn gynharach yn y broses asesu, e.e. wrth gynllunio a mapio deilliannau'n gychwynnol, neu am na welir tystiolaeth yn ystod y broses arsylwi ac asesu barhaus; neu gall wneud hynny wrth adolygu'r dystiolaeth derfynol a gyflwynwyd cyn y drafodaeth.

## Cyn y drafodaeth

Bydd yr aseswr yn cynllunio strwythur y drafodaeth, h.y. yn ystyried y canlyniadau i'w hadolygu a'r ystod o gwestiynau i'w gofyn i chi.  Ni ofynnir i chi baratoi unrhyw beth penodol ar gyfer y drafodaeth a bydd yr aseswr yn sicrhau bod y cwestiynau'n glir, a bod cyd-destun perthnasol digonol yn cael ei roi os gofynnir y cwestiwn ar agwedd ar arfer a arsylwyd er mwyn eich galluogi i gofio'r digwyddiad.

## Cyflwyno'r drafodaeth

Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfforddus ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Diben hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd rydych yn cyrraedd y safonau drwy leihau'r graddau y gallai eich nerfau effeithio ar eich perfformiad.  Bydd eich aseswr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau hyn, gan gynnwys:

- cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses
- crynhoi diben a strwythur y drafodaeth
- pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol
- gofyn a oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau.

## Yn ystod y drafodaeth

Bydd eich aseswr yn gwneud nodiadau er mwyn crynhoi eich ymatebion. Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn eich galluogi i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, fel 'Sut roeddet ti'n gwybod hynny?', 'Sut wnes di ddod i'r casgliad hwnnw?'
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir.

## Yn dilyn y drafodaeth

Bydd eich aseswr yn cwblhau'r Ffurflen Gofnodi Trafodaeth gan gadarnhau a oes tystiolaeth ddigonol bellach o'r meysydd canlyniad allweddol i'w diwallu.

## Amseriadau

Gan fod y drafodaeth yn seiliedig ar gadarnhau a chydgrynhoi tystiolaeth, ni ddisgwylir iddi barhau'n fwy na 15-20 munud i gyd.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod hyn gyda'r ymgeisydd a'i gael i gytuno cyn dechrau.

# Cam 4 - Cwblhau

- **Cadarnhau'r penderfyniad**

Fe'ch hysbysir o ganlyniad yr asesiad.

Os na chyflawnir yr asesiad, amlinellir y rhesymau dros y canlyniad hwn a rhoddir adborth ar yr hyn sydd angen ei wneud nesaf.

## Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth dan arweiniad?

Dylai'r gwaith asesu a'r adborth ddigwydd o fewn pythefnos i gyflwyno'r asesiad wedi'i gwblhau. Os dyfernir bod y dystiolaeth yn annigonol, ac nad yw'ch aseswr yn fodlon y gellir dyfarnu canlyniad pasio, byddant yn egluro i chi a'ch rheolwr y rhesymau dros y canlyniad, beth arall sydd ei angen ac amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth bellach.

### Ailgyflwyno

Os bydd angen i ymgeisydd gyflwyno mwy o dystiolaeth, rhaid darparu adborth a chefnogaeth briodol er mwyn ei alluogi i wneud hynny. Os na fyddwch yn diwallu'r canlyniadau dysgu priodol sy'n ofynnol yn yr ailgyflwyniad dilynol, dylai'r ganolfan drefnu cymorth ychwanegol i chi, neu bydd gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.


### Sut gallaf gael fy nhystysgrif?

Wedi i bawb (chi, eich rheolwr a'ch aseswr) gytuno bod yr holl dasgau wedi'u cwblhau i ddiwallu gofynion y cymhwyster, bydd y Corff Dyfarnu yn cyflawni nifer o'u gwiriadau eu hunain i sicrhau ansawdd. Bydd eich portffolio o dystiolaeth yn cael ei ddilysu'n fewnol gan Ddarparwr Sicrwydd Ansawdd Mewnol (IQA) a nodwyd gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle; a bydd ar gael i'w ddilysu'n allanol gan Ddarparwr Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA) a ddyrennir gan y Corff Dyfarnu. Os yw pawb yn cytuno â phenderfyniad eich aseswyr, yna cyhoeddir eich tystysgrif.

# Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Efallai y gallwch wneud cais am gymorth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd angen i chi ddiwallu rhai meini prawf a gall y broses gymryd peth amser i'w threfnu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro/hyfforddwr neu aseswr cyn gynted ag y gallwch fel y gallant wneud trefniadau. Nid yw pob cais am gymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth benodol i helpu i wneud y penderfyniad cywir.

**COFIWCH** - Cyn cymryd asesiad mae'n bwysig bod yn hyderus eich bod yn barod a bydd eich tiwtor/athro/aseswr yn eich helpu i nodi pan fyddwch wedi cyrraedd y pwynt hwn. Trwy'r cyfnod dysgu dylech gael cyfleoedd i ymarfer gweithio gydag oedolion mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Edrychwch ar yr adnoddau dysgu ar y gwefannau dilynol:




Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

**Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau?** Dylech ddechrau paratoi ar gyfer eich asesiadau cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ar eich cymhwyster. Po gyntaf y byddwch yn dechrau arfer da ag astudio, po leiaf y straen y byddwch yn ei deimlo. Mae astudio llwyddiannus yn galw am sgiliau trefnu a rheoli amser da, ond hefyd mae angen i chi fod yn realistig. Os ydych yn gweithio yn ogystal â mynychu'r ysgol neu'r coleg, neu os ydych yn cwblhau rhaglen yn y gwaith fel prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio ar gyfer amser astudio. Byddwch yn falch eich bod yn astudio a gadewch i'ch ffrindiau a'ch teulu/gofalwyr wybod y bydd arnoch angen eu cefnogaeth ac y byddwch yn disgwyl honno.

Mae rhai pobl yn ei gael yn haws ac yn fwy effeithiol astudio y peth cyntaf yn y bore, mae'n well gan eraill ei wneud yn hwyrach yn y dydd, ond waeth beth yw amser y dydd, mae astudio yn llawer haws ac yn fwy llwyddiannus os oes gennych le tawel a chysurus sy'n llachar ac yn agored i'r awyr ac sy'n cynnwys rhywle i ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar y gwefannau dilynol a fydd yn eich helpu i astudio:

**LLYFR GWAITH FFRAMWAITH SEFYDLU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU**

https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant

**ADNODDAU ADDYSGOL DIGIDOL**

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o offer ac adnoddau a all eich helpu i astudio:

- gall ysgrifennu â beiros lliwgar eich helpu i nodi geiriau neu ymadroddion allweddol wrth i chi adolygu
- gall crynhoi'ch nodiadau eich helpu chi i drefnu'ch dysgu a lleihau ailadrodd
- gweithio ag eraill mewn grwpiau bach - mae rhannu gwybodaeth a deall a phrofi eich gilydd yn wirioneddol werth chweil
- cymerwch seibiannau rheolaidd - gall awyr iach ac ymarfer corff roi hwb egni i chi a helpu i sicrhau bod eich meddwl yn canolbwyntio
- cymerwch seibiant o'r cyfryngau cymdeithasol, rhoi eich ffôn ar ddistaw neu, yn well byth, ei ddiffodd.

**COFIWCH** na allwch astudio yn dda os ydych wedi blino, dan ormod o straen neu ar frys. Cynllunio a phenderfyniad yw'r allwedd!

# Beth allai'r cymhwyster hwn arwain ato?

## Symud ymlaen at gyflogaeth

Fel yr amlinellir uchod, mae cynnwys y cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** yn cael ei lywio a'i ddylanwadu gan Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**ANOGIR DYSGWYR YN GRYF I GWBLHAU'R CYMHWYSTER CRAIDD CYN, NEU AR YR UN PRYD, Â CHYMWYSTERAU ERAILL SY'N RHAN O'R GYFRES GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT HON, GAN Y BYDD HYN YN UN O'R GOFYNION I YMARFER A BENNIR GAN GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU.**

Ar ôl cael gwaith, efallai y bydd cyfleoedd pellach i symud ymlaen at rolau Lefel 3 neu, ar ôl i chi ennill mwy o brofiad a hyder, i ddatblygu eich potensial o ran arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cymhwyster Lefel 3 dilynol wedi'i gynllunio i adeiladu ar y wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau y byddwch wedi'u datblygu ar Lefel 2:

### LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMARFER (OEDOLION)

Cymhwyster seiliedig ar ymarfer yw hwn sy'n asesu gwybodaeth a chymhwysedd dysgwyr i ymarfer mewn cyflogaeth. Mae'n cynnig y cyfle i feithrin gwybodaeth a sgiliau, gan ddefnyddio cynnwys gorfodol ac unedau dewisol, mewn lleoliadau ar gyfer oedolion, fel gwasanaethau cefnogaeth yn y cartref, gofal preswyl, a darpariaeth anabledd dysgu.

# Symud ymlaen at Lefel 4 a 5

Bydd y **cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5** dilynol yn eich helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa iechyd a gofal cymdeithasol ac fe'u cynlluniwyd i gefnogi datblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen i **arwain a rheoli gwasanaethau**.

Cyn symud ymlaen at Lefel 4 byddwch eisoes wedi ennill profiad sylweddol ar Lefel 3 a bydd y cymwysterau isod yn eich cefnogi i naill ai ganolbwyntio ar agwedd benodol ar ymarfer neu byddant yn eich helpu i ehangu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n ofynnol i arwain a rheoli darpariaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## LEFEL 4 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL GYDAG ARBENIGEDD (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gyfoethogi ac ehangu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n ymwneud â maes ymarfer sydd â ffocws pendant. Byddwch yn gallu dewis pa faes y mae gennych ddiddordeb mwyaf ynddo, ond bydd yn rhaid i hyn fod yn berthnasol i'r math o wasanaethau rydych chi'n eu darparu. Mae'n rhaid i chi fod mewn cyflogaeth i gyflawni'r cymhwyster hwn.

## LEFEL 4 PARATOI I ARWAIN A RHEOLI YN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gynnig cipolwg ar ddamcaniaethau a modelau ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n rhaid i chi gwblhau'r cymhwyster hwn cyn y gallwch symud ymlaen i'r Lefel 5 sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.



## LEFEL 5 ARWAIN A RHEOLI IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMARFER (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Bydd y cymhwyster hwn yn adeiladu ar yr hyn y gwnaethoch ei ddysgu ar Lefel 4 ac yn rhoi cyfle i'ch gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau gael eu hasesu. Er mwyn cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, rhaid i chi fod yn gweithio ar Lefel 5 ac yn gallu dangos eich bod wedi dod yn arweinydd a rheolwr cymwys. Mewn rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol mae'n ofynnol bod â chymhwyster Lefel 5 cydnabyddedig. Mae'r cymhwyster Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer yn gymhwyster cydnabyddedig.

# Symud ymlaen at ddysgu pellach

Os nad ydych yn ystyried cyflogaeth ar hyn o bryd ac mae'n well gennych barhau â'ch dysgu ar Lefel 3, bydd y cymhwyster canlynol ar gael o fis Medi 2020 a bydd yn disodli'r cymwysterau Safon Uwch presennol a chymwysterau galwedigaethol Lefel 3 eraill mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Mae'r cymhwyster hwn yn seiliedig ar wybodaeth ac mae wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd am ddatblygu gwybodaeth eang a dwfn yn ymwneud â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Gellir hefyd astudio'r cymhwyster hwn ar y cyd â'r TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Bydd yn seiliedig ar wybodaeth ac yn ymdrin â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau creiddiol sy'n ofynnol gan y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cynnig sylfaen eang ar gyfer addysg bellach a/neu uwch neu gyflogaeth yn y sectorau.

Gallai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster **Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau** ynghyd â chymwysterau Lefel 3 eraill, yn cynnwys TAG, symud ymlaen i gyrsiau addysg uwch mewn meysydd yn cynnwys:

- iechyd
- gofal cymdeithasol
- gofal plant
- therapi iaith a lleferydd
- seicoleg
- nyrsio a gwaith bydwraig
- therapi galwedigaethol.

Yn ystod blwyddyn 2, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ymgymryd â lleoliad gwaith dewisol sy'n cael ei asesu. Ni fwriedir i hyn gadarnhau cymhwysedd galwedigaethol ar Lefel 3 y gellir ond ei gyflawni drwy'r cymhwyster **Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** neu'r cymhwyster **Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)**.

Er y bydd y cymwysterau Lefel 3 a restrir uchod yn denu pwyntiau UCAS, mae prifysgolion yn rhydd i osod eu meini prawf mynediad eu hunain ar gyfer rhaglenni graddedig ac israddedig. Gall y rhain amrywio o brifysgol i brifysgol a gallant gynnwys gofyniad i ddal pynciau TGAU penodol hefyd, gan gynnwys mathemateg a Saesneg.

Rydym wedi gweithio ag ystod o brifysgolion ledled Cymru a'r DU ehangach i sicrhau bod y cymwysterau Lefel 3 newydd yn cael eu cydnabod a'u derbyn ar gyfer mynediad i raglenni gradd a gradd sylfaen.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, cyfeiriwch at wefan Gofal Cymdeithasol Cymru: https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru

# Symud ymlaen ar draws y sector ehangach

Mae'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau sydd wedi'u cynllunio i alluogi dilyniant yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac i rolau eraill yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Wedi i chi gwblhau'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)**, efallai y byddwch yn penderfynu eich bod yn dymuno gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes iechyd neu ofal plant. Bydd y cymwysterau dilynol yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

# A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster?

Dyluniwyd y cymhwyster hwn i gyd-fynd â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sef fframwaith sefydlu yn y gweithle sy'n wirfoddol ar hyn o bryd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn unig. Mae cynnwys y cymhwyster hwn a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynrychioli'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol o Lefel 2 sy'n hanfodol ar gyfer gweithio'n ddiogel mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Disgwylir y bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn cwblhau'r cymhwyster hwn ar y cyd â:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Mae'r cymhwyster uchod yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gaiff eu cydnabod gan reoleiddwyr gweithlu a sefydliadau'r sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhywbeth sy'n cynrychioli gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau Lefel 2 sydd eu hangen i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU.

# Cyllid

Mae'n bosibl ariannu'r holl gymwysterau y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen hon yng Nghymru, gan gynnwys Prentisiaethau. Siaradwch â'ch ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle am gyfleoedd ariannu a all ddiwallu eich anghenion.

# Sut ydw i'n hoffi dysgu – beth yw fy 'hoff' ddull dysgu?

Mae dysgu yn broses unigol iawn ac felly mae'n bwysig eich bod yn canolbwyntio ar sut y gallwch ddysgu, prosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut y gall hyn gefnogi eich llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'n effeithiol fel eich bod yn gallu cofio'ch gwybodaeth newydd yn hawdd pan fydd angen. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â pherfformio'n dda yn eich asesiadau - mae'r un mor bwysig eich bod yn gallu cofio'ch gwybodaeth pan ydych yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i ddatblygu ac arddangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y mwyafrif o bobl hoff ffordd o ddysgu y gellir ei disgrifio'n fras mewn un neu ddwy o'r ffyrdd dilynol:

1. Gwneud
2. Meddwl
3. Teimlo
4. Gwylio


Dros y blynyddoedd mae cryn nifer o fodelau neu ddamcaniaethau wedi'u datblygu i geisio ein helpu i nodi sut rydym yn dysgu a pha fathau o bethau y gallai fod eu hangen ar wahanol unigolion i wneud dysgu'n haws ac yn fwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd neu a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yw damcaniaeth ddysgu trwy brofiad Kolb (1984) a damcaniaeth Honey & Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithredu - teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Adeiladodd Honey & Mumford ar ddamcaniaeth Kolb sy'n awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull unigolyn o ddysgu yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan un neu ddau o'r rhain yn unig.




Pan gyflwynwyd y pwnc 'hoff 'ddulliau dysgu gyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, roedd llawer yn credu bod unigolion yn dysgu mewn ffordd benodol yn unig a bod hyn yn gymharol ddigyfnewid. Mae meddwl modern ynghylch 'hoff' ddull dysgu yn nodi na ddylid meddwl am sut rydych yn mynd ati i ddysgu fel rhywbeth sy'n ddigyfnewid. Mae meddwl am sut mae'n well gennych ddysgu yn offeryn defnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych yn ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych yn teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych ynddo ac ati.

Os meddyliwch am y tro diwethaf y bu'n rhaid i chi ddysgu rhywbeth efallai y gwelwch fod eich hoff ymagwedd yn ffitio i un, neu ddau efallai, o'r categorïau dilynol:

| DULL DYSGU | EFALLAI MAI DYMA'CH HOFF DDULL DYSGU OS: | RYDYCH YN: | MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO |
|---|---|---|---|
| GWEITHREDYDD | rydych yn hoffi dysgu trwy wneud | frwdfrydig; yn tueddu i weithredu yn gyntaf, ac ystyried yn nes ymlaen; yn y sefyllfa sydd ohoni | cynhyrchu syniadau mewn grŵp, arbrofi ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau |
| PRAGMATYDD | rydych yn hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut y gallent weithio yn y byd go iawn | tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus | astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol o'r hyn rydych yn ei ddysgu |
| MYFYRIWR | rydych yn hoffi meddwl am yr hyn rydych yn ei ddysgu | hoffi rhoi cynnig ar bethau; byddwch yn gweithredu'n gyflym ac yn hyderus; gallwch fod yn ddiamynedd; datryswyr effeithiol o broblemau | treulio amser yn darllen o amgylch pwnc, a gwylio eraill yn rhoi cynnig ar bethau |
| DAMCANIAETHWR | rydych yn hoffi deall sut mae'r dysgu newydd yn cyd-fynd â'ch 'model gweithio' neu 'fframwaith' ac â damcaniaethau blaenorol | dda o ran addasu; yn hoffi dadansoddi er mwyn meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddylwyr rhesymegol | modelau a damcaniaethau, â digon o wybodaeth gefndirol |

Os ydych yn meddwl am rai profiadau dysgu eraill rydych wedi'u cael, efallai y byddwch yn sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd gennych fynediad at wahanol adnoddau, (2) roeddech yn teimlo'n hyderus, a (3) roeddech yn gallu cymryd eich amser.  Y rheswm am hyn yw y gall yr amgylchedd, sut rydych yn teimlo'n emosiynol a'ch profiadau o ddysgu yn y gorffennol oll effeithio ar sut y gallwch drin dysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n haws i chi a pha bryderon, os o gwbl, a allai fod gennych ynglŷn â dechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr hefyd yn gallu eich cefnogi i gyrchu cymorth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i nodi a deall yn well pa wahanol ddulliau dysgu sy'n gweithio orau i chi.